Ymunwch â ni yn **Nhîm Ceredigion**

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Cynllun Hyfforddeion Graddedig

Pecyn Gwybodaeth
2026

PERTHYN DYSGU LLWYDDO BYW
BELONG LEARN SUCCEED LIVE

# Rhagair gan Eifion Evans, Prif Weithredwr

***Croeso, a diolch am eich diddordeb mewn ymuno â ni yn Nhîm Ceredigion.***

Yng Nghyngor Sir Ceredigion, rydym yn falch o'r gwaith a wnawn i gefnogi ein cymunedau, amddiffyn ein hamgylchedd, a llunio dyfodol gwell i bawb sy'n byw ac yn gweithio yma.  Yn ddiweddar, daeth Panel Asesu Perfformiad Annibynnol i'r casgliad ein bod yn Awdurdod Lleol sy'n perfformio'n uchel. Yn ogystal, o'i gymharu â dangosyddion perfformiad Awdurdodau Lleol cenedlaethol, mae Ceredigion yn cael ei restru ymhlith y Cynghorau sy'n perfformio orau yng Nghymru - tystiolaeth o ymroddiad a ymrwymiad ein gweithlu.

Mae dros 3,600 ohonom yn Nhîm Ceredigion, ac mae pob un ohonom yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel ledled y sir. Yr hyn sy'n ein gwneud ni'n arbennig yw'r diwylliant gwirioneddol gefnogol a cynhwysol rydym wedi'i adeiladu gyda'n gilydd. Rydym yn dîm - wedi ymrwymo i helpu ein gilydd i lwyddo, ac i greu amgylchedd lle gall pawb berfformio ar eu gorau.

Rydym bob amser yn chwilio am unigolion talentog a syniadau ffres i'n helpu i barhau i dyfu, gwella ac arloesi. Mae'r Rhaglen Hyfforddi Graddedigion yn rhan allweddol o'n hymrwymiad i ddatblygu gweithlu'r dyfodol. Mae'n cynnig cyfle cyffrous i raddedigion ennill profiad ymarferol, dysgu gan weithwyr proffesiynol profiadol, a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i adeiladu gyrfaoedd llwyddiannus ac ystyrlon mewn gwasanaeth cyhoeddus.

Os ydych chi'n barod i wneud gwahaniaeth, i ddysgu, ac i herio'ch hun, rwy'n eich annog i wneud cais. Edrychw ymlaen at eich croesawu i Dîm Ceredigion—a gweld sut y byddwch chi'n ein helpu i lunio dyfodol ein sir.

**Eifion Evans,**
**Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ceredigion**



# Tystiolaeth Hyfforddai Graddedig

Ydych chi’n chwilfrydig am ein cynllun hyfforddai graddedig? Clywch gan Nia Humphreys, Gweithiwr Achosion Cyfiawnder Ieuenctid, sy’n siarad am ei phrofiad fel rhan o’n carfan Hyfforddai Graddedig 2025.



Gwyliwch Fideo!

# Croeso i Dîm Ceredigion!

## Mae Eich Gyrfa'n Dechrau Yma!

Ydych chi'n barod i gymryd y cam cyntaf tuag at adeiladu gyrfa ystyrlon a gwerth chweil? Fel Hyfforddai Graddedig gyda Chyngor Sir Ceredigion, byddwch chi'n cael y cyfle i Berthyn, Dysgu, Llwyddo, a Byw — datblygu eich sgiliau, ennill profiad gwerthfawr, a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r bobl a'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Mae Ceredigion yn sir heb ei hail. O dref fywiog Aberystwyth i gefn gwlad godidog a'r arfordir tonnog, rydym yn falch o'n sir - ac yn fwy balch fyth o'r tîm sy'n ei helpu i ffynnu. Drwy ymuno â Thîm Ceredigion, byddwch yn rhan o weithlu angerddol ac ymroddedig sydd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel a gyrru newid cadarnhaol. Rydym yn credu mewn buddsoddi yn ein pobl - gan gynnig datblygiad proffesiynol, gweithio hyblyg, ac amgylchedd cefnogol a chynhwysol lle gall pawb lwyddo.

Mae'r Cynllun Hyfforddi Graddedigion wedi'i chynllunio i'ch helpu i gychwyn eich gyrfa. Dros 12 mis, byddwch yn:

- **Gweithio ar brosiectau go iawn sy'n gwneud gwahaniaeth i bobl a chymunedau Ceredigion**
- **Cael eich mentora gan weithwyr proffesiynol profiadol yn eich maes gwasanaeth dewisol**
- **Cwblhewch gymhwyster Rheoli Prosiectau PRINCE2 achredededig**
- **Adeiladu sylfaen gref ar gyfer rolau proffesiynol yn y dyfodol, gyda'r posibilrwydd o gontract dilynol a chefnogaeth astudio bellach**

Mae’r cyfle hwn yn fwy na swydd yn unig - mae'n gyfle i ddatblygu eich potensial, archwilio cyfleoedd newydd, a chwarae eich rhan wrth lunio Ceredigion well i bawb. Rydym yn gyffrous i weld beth allwch chi ei gyflawni gyda ni. Gadewch i ni adeiladu eich dyfodol a Cheredigion ffyniannus gyda'n gilydd.

Caru · Love Ceredigion




# Trosolwg o'r Rhaglen

## Disgrifiad o'r Rhaglen:

Mae Cynllun Hyfforddai Graddedig Ceredigion yn fenter gynhwysfawr sydd wedi'i hanelu at y rhai sydd wedi graddio o fewn y tair blynedd ddiwethaf ac sy'n barod i gymryd y cam cyntaf yn eu gyrfaoedd.

Mae'r cyfle cyflogedig 12 mis hwn yn cynnig y cyfle i chi ennill cyflog wrth ddysgu, gan feithrin profiad ymarferol ar draws amrywiaeth o swyddogaethau allweddol o fewn y Cyngor. O dan arweiniad arbenigwyr pwnc proffesiynol, byddwch yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'n cymuned.

# Am y cyfle

## Systems Development & Reporting (HR)

**Function Duties Description:**
As a HR Systems Development & Reporting Graduate Trainee, you will:

- Support the design, development, testing and maintenance of bespoke digital web forms and workflows, working with users to understand requirements and improve digital processes.
- Assist in the development, enhancement and maintenance of Power BI reports and dashboards, helping to ensure accurate, timely and meaningful data insight.
- Work with colleagues across the People & Organisation service to support systems integration, data quality and the effective flow of information between digital tools and platforms.
- Contribute to defined digital, data and improvement projects, supporting documentation, testing, user guidance and continuous improvement activity.
- Develop technical, analytical and professional skills through supervised work, training and project involvement, supporting progression into a specialist digital, data or systems role.

**Potential Follow-up Contract:**
There is the potential for a follow-on contract, subject to outstanding performance and available funding.



# Am y cyfle

## Datblygu Systemau ac Adrodd (AD)

**Disgrifiad o Ddyletswyddau Swyddogaeth:**
Fel Hyfforddai Graddedig Datblygu ac Adrodd Systemau AD, byddwch yn:

- Cefnogi dylunio, datblygu, profi a chynnal a chadw ffurflenni gwe a llifau gwaith digidol pwrpasol, gan weithio gyda defnyddwyr i ddeall gofynion a gwella prosesau digidol.
- Cynorthwyo i ddatblygu, gwella a chynnal adroddiadau a dangosfyrddau Power BI, gan helpu i sicrhau mewnwelediad data cywir, amserol ac ystyrlon.
- Gweithio gyda chydweithwyr ar draws y gwasanaeth Pobl a Sefydliad i gefnogi integreiddio systemau, ansawdd data a llif effeithiol gwybodaeth rhwng offer a llwyfannau digidol.
- Cyfrannu at brosiectau digidol, data a gwella diffiniedig, dogfennaeth ategol, profi, canllawiau defnyddwyr a gweithgaredd gwella parhaus.
- Datblygu sgiliau technegol, dadansoddol a phroffesiynol drwy waith dan oruchwyliaeth, hyfforddiant a chymryd rhan mewn prosiectau, gan gefnogi dilyniant i rôl arbenigol mewn digidol, data neu systemau.

**Contract Dilynol Posibl:**

- Mae potensial am gontract dilynol, yn amodol ar berfformiad rhagorol a'r gyllideb.

# Tri awgrym ar gyfer cyflwyno cais gwych...

## 1 Cyn i chi ddechrau, edrychwch ar fanyleb y person

Mae manyleb y person yn tynnu sylw at y pethau allweddol rydyn ni'n chwilio amdanyn nhw. Y meini prawf hanfodol yw'r pethau hynny y mae'n rhaid i chi eu cael er mwyn cael eich penodi i wneud y swydd, felly mae'n bwysig eich bod chi'n gallu dweud 'ydw, mae gen i rhain' cyn i chi fuddsoddi amser ac ymdrech yn llenwi'ch ffurflen gais.

Meini prawf dymunol yw rhinweddau yr ydym yn credu y byddai'n fantais i chi eu cael. Ond peidiwch â chynhyrfu os nad oes gennych chi nhw - yn aml, dyma'r meysydd y byddem yn edrych i'w datblygu o fewn y rôl. Wrth gwrs, os cawn lawer o geisiadau am y rôl, efallai y byddwn yn defnyddio'r meini prawf dymunol i sgrinio.

## 2 Byddwch yn chi'ch hun

Rydym yn awyddus i ddarganfod a yw eich personoliaeth yn cyd-fynd â'n gwerthoedd ni, felly byddwch yn onest a byddwch yn chi'ch hun - gadewch i'ch personoliaeth ddisgleirio yn eich ffurflen gais.

## 3 Dywedwch wrthym ni i gyd amdano

Yn aml, rydym yn canfod bod ymgeiswyr yn datgan bod ganddynt yr hyn sydd ei angen i wneud y swydd, ond nid ydynt yn rhoi digon o fanylion i ni am y rhesymau - felly gwnewch yn siŵr eich bod yn egluro pam neu sut rydych chi'n bodloni manyleb y person. Ffordd dda o sicrhau eich bod yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom yw edrych ar fanyleb y person a nodi enghraifft sy'n profi bod gennych y sgiliau, y wybodaeth neu'r profiad ar gyfer pob eitem ar y rhestr. Bob tro y byddwch yn dweud wrthym fod gennych yr hyn sydd ei angen ar eich ffurflen gais, rhowch un o'ch enghreifftiau i ni.



# Yn gyfnewid am eich sgiliau a'ch arbenigedd

- **Lleoliad â Thâl 12 Mis:** Mwynhewch flwyddyn lawn o brofiad gwaith â thâl, gan ennill sgiliau a gwybodaeth werthfawr.
- **Cymhwyster Rheoli Prosiectau Cydnabyddedig:** Cwblhewch hyfforddiant Rheoli Prosiectau Achrededig Prince 2, gan wella eich cymwysterau proffesiynol.
- **Cymorth Proffesiynol a Mentora:** Derbyniwch arweiniad a mentora gan weithwyr proffesiynol profiadol i gefnogi datblygiad eich gyrfa.
- **Gwyliau Blynyddol Hael:** Manteisiwch ar 27 diwrnod o wyliau blynyddol, ynghyd ag 8 gŵyl gyhoeddus.
- **Amrywiaeth o opsiynau absenoldeb â thâl a di-dâl:** O absenoldeb gofalu i fynychu apwyntiadau, mae gennym ystod o opsiynau absenoldeb ychwanegol ar gael.
- **Gweithio Hybrid:** Yn amodol ar le gwaith addas, cysylltiad band eang, ac anghenion y maes gwasanaeth, gallwch ddewis gweithio o gartref neu yn un o'n swyddfeydd.
- **Amser Hyblyg:** Gnewch eich oriau gwaith rhwng 7:30 am a 7:00 pm, gydag oriau credyd yn cael eu cymryd fel gwyliau ychwanegol, yn amodol ar anghenion gwasanaeth.
- **Contract Dilynol Posibl:** Y potensial am gontract dilynol, yn amodol ar berfformiad rhagorol a chyllid, a all gynnwys cefnogaeth bellach i ennill cymhwyster proffesiynol arbenigol.
- **Cynllun Buddion Vivup:** Mynediad i blatfform buddion i weithwyr sy'n cynnig amrywiaeth o fanteision, gan gynnwys gostyngiadau ar siopa, aelodaethau campfa, prydlesu ceir, cymorth iechyd a lles, a chyngor ariannol a llawer mwy.

Gwyliwch Fideo!







# Lle gwych i fyw a gweithio






# Beth mae ein gweithwyr yn ei ddweud ynglŷn â gweithio i Dîm Ceredigion...

Arolwg Pobl
Tîm Ceredigion

**95%**
o'n gweithwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y Cyngor wedi ymrwymo i greu gweithle amrywiol a chynhwysol

**91%**
o'n gweithwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod eu rheolwr yn cefnogi eu datblygiad gyrfa hirdymor

**90%**
o'n gweithwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y Cyngor yn darparu'r hyfforddiant sydd ei angen arnynt i wneud eu gwaith yn dda a datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau

**87%**
o'n gweithwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn derbyn cefnogaeth dda i gydbwyso eu gwaith a'u hymrwymiadau personol

**92%**
o'n gweithwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn cael eu trin yn deg gan eu rheolwr

**88%**
o'n gweithwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf y byddent yn argymell y Cyngor fel lle da i weithio

'Rwy'n gymharol newydd i'm swydd, a dydw i erioed wedi gweithio mewn tîm lle rydw i wedi teimlo mor werthfawr. Mae cydweithwyr bob amser wrth law i gynnig cefnogaeth a chyngor. Rydw i'n deffro'n edrych ymlaen at fynd i'r gwaith a beth fydd fy niwrnod yn ei gynnig. Rydw i bob amser yn cael cynnig hyfforddiant cyfredol."

"Yr hyn dw i'n ei garu fwyaf am weithio yma yw'r ymdeimlad o bwrpas a'r gwaith tîm. Mae'n ysbrydoledig cydweithio â chydweithwyr sy'n rhannu'r un nod – gwneud Ceredigion yn lle hyd yn oed gwell i fyw a gweithio.."

"Rwy'n caru fy swydd a'r bobl rwy'n gweithio gyda nhw, rwy'n teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi ac yn credu ein bod yn dîm (a sefydliad) arloesol a thosturiol. Mae llawer o'r heriau'n gyfleoedd anhygoel i dyfu a dysgu."

Ymunwch â ni yn **Nhîm Ceredigion**

gyrfaoedd.ceredigion.gov.uk

PERTHYN DYSGU LLWYDDO BYW

BELONG LEARN SUCCEED LIVE